



Royal College
of Physicians

Coleg Brenhinol
y Meddygon (Cymru)

Y bobl sy'n gofalu

Gweithlu iechyd a gofal Cymru yn 75 oed

Gorffennaf 2023

Mewn partneriaeth â'r
grŵp cynghori colegau
brenhinol a chyrff
proffesiynol Cymru



Mae'r craciau yn dangos. Mae staff iechyd a gofal wedi blino, wedi digalonni ac yn rhwystredig.

Ers 5 Gorffennaf 1948, mae pobl Cymru wedi derbyn gofal iechyd sydd am ddim ar adeg angen clinigol, ac nad yw'n ddibynnol ar allu unigolyn i dalu. Mae GIG Cymru yn cyflogi dros 88,000 aelod o staff, yn hyfforddi cannoedd o weithwyr iechyd proffesiynol ac yn trin miloedd o bobl bob dydd. Ond mae'r craciau'n dangos, ac mae cannoedd o staff yng Nghymru'n dweud eu bod yn debygol o adael y GIG.

Mae blynnyddoedd o dangyllido, ynghyd â bylchau eang mewn rotâu, poblogaeth sy'n heneiddio, anghydraddoldebau iechyd cynyddol a system iechyd a gofal sy'n dameidiog a chymhleth - i gyd wedi cael eu cymhlethu gan effeithiau pandemig byd-eang – yn arwain at storm berffaith i'r gweithlu iechyd a gofal.

'Dylai Cymru anelu at fod yn lle gwych i hyfforddi a gweithio.'

Ym mis Ionawr 2018, roedd yr adolygiad seneddol o iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn galw ar staff iechyd a gofal, gwirfoddolwyr a dinasyddion i weithio â'i gilydd i sicrhau canlyniadau clir, gwell iechyd a lles, gweithlu sy'n derbyn gofal, a gwell gwerth am arian, o fewn system ddi-dor o iechyd a gofal sy'n diwallu anghenion y boblogaeth. Dylai'r gweithlu alinio â modelau gofal newydd, a dylai staff gael eu hyfforddi'n dda, eu cefnogi a'u hymgysylltu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a'i wella'n barhaus.

Wrth i'n poblogaeth heneiddio, mae pobl Cymru yn haeddu gweithlu iechyd a gofal aml-alwedigaethol sy'n gallu diwallu anghenion poblogaeth y dyfodol, gan weithio'n hyblyg ar draws gwahanol leoliadau a thimau, sydd wedi'u grymuso a'u galluogi i ddarparu gofal sy'n canolbwytio ar yr unigolyn.

'Mae ein staff yn hanfodol i system GIG a gofal cymdeithasol lwyddiannus.'

Roedd cynllun hirdymor llywodraeth Cymru ar

gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, Cymru iachach, yn addo darparu gweithlu cynhwysol, hyblyg, aml-alwedigaethol sy'n gallu gweithio ar draws sectorau a ffiniau traddodiadol trwy sicrhau strategaeth gweithlu newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, yn cael ei weithredu a'i ategu gan ddata a chynllunio rhagorol o ran y gweithlu er mwyn denu, recriwtio a chadw pobl ddawnus i hyfforddi, gweithio a byw yng Nghymru.

Ers lansio'r adolygiad seneddol, a'r cynllun hirdymor, yn 2018, rydym wedi byw trwy bandemig byd-eang sydd wedi amlyu a gwaethyg anghydraddoldebau iechyd, cyfraddau uwch o ddiffygio staff ac anafiadau moesol, ac wedi newid yn sylfaenol y ffordd rydym yn gweithio ac yn byw mewn cymaint o ffyrdd.

Bum mlynedd yn ddiweddarach, mae'n amser i bwyo a mesur. A ydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd yn yr adolygiad seneddol? A yw Cymru iachach wedi llwyddo i newid y ffordd rydym yn darparu iechyd a gofal? Ac efallai, yn bwysicaf oll - beth nesaf i'r system iechyd a gofal ehangu, wrth i ni edrych ymlaen at y GIG yn 100 oed?

'Mae buddsoddi yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i iechyd y boblogaeth a, fel canlyniad uniongyrchol, lles economaidd y wlad. Mae gweithlu ag adnoddau da yn ganolog i alluogi'r GIG ac awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus, a darparu mynediad i drethdalwyr at ofal iechyd a chymdeithasol o ansawdd uchel. Bydd hefyd yn diogelu lles meddyliol a chorfforol hanfodol y rheiny sy'n ymwneud â darparu gofal iechyd a chymdeithasol.'

- Therapi galwedigaethol dan bwysau

Gweithlu iechyd a gofal Cymru yn 75 oed

Rhwng nawr ac etholiad nesaf y Senedd yn 2026, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio â GIG Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid i:

- > Cyflawni **strategaethau a chynlluniau gweithredu sydd eisoes yn bodoli** yn llawn, gan gynnwys *Cymru iachach*, y **strategaeth gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol**, y **rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwy a'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer y gweithlu**, ac adrodd ar y cynydd a wnaed. Cyhoeddi cynydd yn erbyn argymhellion yr adolygiad seneddol, yn enwedig mewn perthynas â modelau gweithlu aml-alwedigaethol a lles staff. Adnewyddu'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer dyfodol iechyd a gofal yng Nghymru a datblygu dull cydweithredol, rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau lle bo hynny'n briodol.

Efallai y bydd oddeutu traean o'r gweithlu anaesthetiyydion yn penderfynu gweithio llai na llawn amser o fewn pum mlynedd, â llawer yn nodi amodau gwaith gwael gan gynnwys disgwyliadau afrealistig canfyddedig neu ddiffyg hyblygrwydd yngylch rotâu, diffyg cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a chefnogaeth gyfyngedig ar gyfer straen a thrawma.

- > Cryfhau casglu a dadansoddi **data'r gweithlu**, wedi'i dorri i lawr yn ôl galwedigaeth, arbenigedd a chyfnod gyrrfa, gan gynnwys staff sydd newydd gymhwys. Sicrhau yr adroddir ar ddata yn rheolaidd mewn fformat hygrych a thryloyw. Datblygu cynlluniau'r gweithlu sy'n ystyried galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar draws arbenigeddau a safleoedd, cydnabod ymarferion gwaith sy'n newid, gan gynnwys gweithio hyblyg a llai-na-llawn-amser (LTFT), ac ystyried y nifer cynyddol o feddygon arbenigol ac arbenigol cyswllt (SAS), meddygon a gyflogir yn lleol (LE), a gweithwyr proffesiynol meddygol cyswllt yn y tîm amlddisgyblaethol. Datblygu, cyd-gynhyrchu a chyhoeddi cynllun gweithredu'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Dywed 62% o feddygon ymgynghorol yng Nghymru fod bylchau rota dyddiol neu wythnosol. Dywed 45% fod yna swydd wag ymgynghorol barhaol yn eu hadran. Mae llai na thraean (29%) yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros eu llwyth gwaith ac mae bron i hanner (49%) yn dweud bod ganddynt lwyth gwaith gormodol, â 37% yn gweithio oriau gormodol. Hoffai 73% weithio llai o oriau yn y dyfodol a disgwylir i bron i hanner (44%) ymddeol yn y degawd nesaf.

Mae'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys yn argymhell y dylid cael ymgynghorydd yn bresennol mewn adrannau brys (ED) am 16 awr y dydd o leiaf. Yng Nghymru, mae gan ED cyffredin ymgynghorydd ar y safle am 12 awr y dydd yn unig yn ystod yr wythnos, a 10 awr y dydd yn ystod y penwythnos. Mae amseroedd aros hir a gorlenwi wrth y drws ffrynt yn rhoi pwysau enfawr ar staff ac yn cyfrannu at brinder gweithlu.

- > Ailddatgan ymrwymiad cyffredinol i **atal ariegydd**. Datblygu cynllun cyflawni trawslywodraethol clir ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd er mwyn lleihau'r galw ar y system iechyd a gofal. Sicrhau bod yr holl fentrau hybu iechyd (ee y cynllun plant a phobl ifanc, y strategaeth pwysau iach, y strategaeth rheoli tybaco a Rhaglen Plant Iach Cymru) a fframweithiau cenedlaethol (ee Fframwaith NYTH a'r dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol) yn meddu ar gynllun gweithlu a ariennir sy'n cydfynd. Cydnabod ac ariannu adsefydlu, adfer a hunanreoli cyflyrau iechyd fel darpariaeth gofal iechyd hanfodol.

Dywed 78% o therapyddion galwedigaethol yng Nghymru nad yw eu tîm amlddisgyblaethol yn ddigon mawr i ateb y galw cynyddol gan gleifion.

Ar gyfer lles y gweithlu

Mae timau fferylliaeth o dan bwysau aruthrol. Mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn adrodd lefel uchel o ddiffygio, llwythi gwaith uchel a phrinder staff, sy'n cael effaith ddifrifol ar iechyd meddwl a lles.

> Blaenoriaethu **cadw** staff. Cefnogi gweithio hyblyg a neilltuo amser gwarchodedig ar gyfer gwaith heb fod yn glinigol, yn enwedig addysg a hyfforddiant. Cyflwyno cynllunio swyddi ar gyfer pob galwedigaeth sydd eisiau hyn. Cydnabod cyfraniad meddygon SAS a LE, a chefnogi eu datblygiad gyrfa yn well, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol meddygol cyswllt yn y tîm amlddisgyblaethol. Dangos arweinyddiaeth dosturiol. Annog pobl i siarad yn uchel am fwlio ac afonyddu a chymryd agwedd dim goddefgarwch wrth ymdrin â gwahaniaethu. Cyhoeddi diweddariad ar gynlluniau i sefydlu grŵp partneriaeth gymdeithasol i ystyried lles staff. Galluogi a chefnogi gweithio o bell fel y bo'n briodol. Sicrhau bod gan staff fynediad at seibiannau gorffwys priodol a chyfleusterau gorffwys gwell, ynghyd â bwyd poeth iach, o ansawdd da 24/7. Cryfhau'r ddarpariaeth cymorth iechyd galwedigaethol, lles ac iechyd meddwl. Buddsoddi mewn TG, cyfleusterau ac ystadau i wella'r amgylchedd gwaith. Ehangu mynediad i fwrsariaethau a phrentisiaethau. Ystyried materion cudd fel tai, gofal plant a chludiant. Gweithio â llywodraeth y DU i werthuso effaith newidiadau i reolau treth pensiwn. Cefnogi'r rheiny sy'n dymuno 'ymddeol a dychwelyd' a safoni'r prosesau hyn ar draws y system iechyd a gofal. Ystyried datblygu cofrestr o ymgynghorwr emeritws sydd wedi ymddeol y gellir eu defnyddio ar gontact hyblyg i helpu i leihau'r ôl-groniad mewn gofal a gynllunnir.

Mae 75% o feddygon mewn hyfforddiant amser llawn yn y DU yn bwriadu gweithio LTFT yn y dyfodol, dewis ffordd o fyw yw'r rheswm mwyaf cyffredin. Mae Archwilio Cymru yn amcangyfrif bod angen hyfforddi tua 15 o bobl am bob 10 meddyg teulu llawn amser yng Nghymru.

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae nifer y staff nysrio yng Nghymru sy'n teimlo'n frwd frydig am eu gwaith wedi gostwng 19%. Mae'r rheiny sy'n teimlo eu bod yn rhy brysur i ddarparu'r lefel o ofal yr hoffent ei gael wedi cynyddu 9%.

> Adnewyddu ymdrechion i **reciwtio** mwy o staff. Ehangu lleoedd hyfforddi lle bo hynny'n bosibl, wrth gydnabod bod hwn yn ddatrysiaid hirdymor. Datblygu cynigion bwsariaeth â chyfranogiad llawn yr holl alwedigaethau. Annog timau i gynllunio olyniaeth leol. Cefnogi ac ariannu ehangiad rolau proffesiynol newydd o fewn y tîm ehangach wrth osgoi amnewid rolau. Mynd ati i werthfawrogi a chefnogi staff GIG a gofal cymdeithasol o dramor. Gweithio â llywodraeth y DU i adolygu rheolau mewnfudo ar gyfer staff rhngwladol.

Dim ond cyfran fach iawn o ymgynghorwyr pediatrig a meddygon SAS yng Nghymru sy'n cael amser gwarchodedig ar gyfer ymchwil, yn ôl Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.

Mae nifer uchel o swyddi gwag a throsiant staff mewn timau gwaith cymdeithasol, sy'n arwain at llwythi achosion gormodol a risg uwch o orweithio a all gael effaith ar eu llesiant a'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Mae hyn, yn ei dro, wedi arwain at ostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru ar raglenni gwaith cymdeithasol mewn prifysgolion. Mae Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain wedi canfod bod dros hanner y gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn teimlo nad ydynt yn gallu rheoli eu llwyth gwaith, ac nad yw'r rhan fwyaf yn gallu cwblhau eu gwaith o fewn yr oriau yn eu contract.



Ar gyfer gweithlu medrus iawn

- > Sicrhau bod yr holl staff yn cael **amser gwarchodedig** ar gyfer addysg, addysgu, ymchwil a gwella ansawdd ar draws pob grŵp proffesiynol a chyfnodau gyrrfa. Gwneud y defnydd gorau posibl o sgiliau holl aelodau'r tîm. Buddsoddi mewn mannau addysgu modern a thechnolegau arloesol gan gynnwys roboteg, diagnosteg a deallusrwydd artifisiai. Cefnogi mwy o staff i ddarparu iechyd a gofal cymdeithasol gan ddefnyddio'r Gymraeg. Mynd ati i gefnogi ac annog pobl o amrywiaeth ehangach o alwedigaethau iechyd a gofal i ddod yn arweinwyr clinigol. Cynnig rhagleni mentora a hyfforddi strwythuriedig i fwy o alwedigaethau a graddau gyrrfa. Ariannu staff i ymgymryd â chymwysterau ôl-raddedig a graddau ymchwil lle bo hynny'n briodol. Ystyried cynnig cyllidebau neu grantiau astudio gwell i leddfu baich ariannol arholiadau proffesiynol.

Mewn arolwg yn 2021, darganfu'r Coleg Nyrssio Brenhinol nad oedd 35% o'r aelodau wedi llwyddo i gwblhau eu hyfforddiant gorfodol ar adeg ymateb. O'r rheiny a oedd wedi cwblhau eu hyfforddiant gorfodol, roedd ychydig llai na thraean (30%) wedi gallu ei gwblhau yn ystod amser gwaith yn unig.

Mae Coleg Brenhinol y Patholegwyr wedi galw am fwy o fuddsoddiad mewn reciwtio a hyfforddi patholegwyr a gwydonwyr i helpu i ddiwallu'r galw cynyddol am ddiagnosis canser ar ôl y pandemig. Mae patholeg yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o atal, sgrinio a chanfod canser yn gynnar, ond mae hefyd yn bwysig ar gyfer diagnosteg labordy clinigol, llwybrau triniaeth ac (fel y dangoswyd yn ystod y pandemig) rheoli heintiau.

Ar gyfer gofal o ansawdd uchel yn agosach i'r cartref

- > Buddsoddi mewn **modelau gofal cymunedol**. Cefnogi cyflwyno deddfwriaeth staffio ddiogel ac adeiladu ar dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli i ymestyn y ddeddfwriaeth i leoliadau eraill fel y bo'n briodol. Cyflwyno cofnodion clefion electronig ar raddfa fawr, ac yn gyflym, i bob lleoliad a galwedigaeth. Datblygu ffyrdd o sicrhau bod gwybodaeth yn teithio â'r claf. Buddsoddi mewn gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, yn enwedig yn y gymuned. Ystyriwch pa'r ôl y gall meddygon SAS ei chwarae wrth gefnogi timau gofal sylfaenol. Cefnogi timau gwledig ac o bell i ddatblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n gwella ansawdd gofal a phrofiad clefion. Buddsoddi mewn timau amlddisgyblaethol sy'n canolbwytio ar ymyrraeth gynnar ac atal derbyniadau i'r ysbyty, yn enwedig i'r rheiny sy'n byw â chyflyrau cronicig.

Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd wedi canfod bod y gyfradd swyddi gwag ar gyfartaledd ar draws y DU bellach yn 23%. Dywedodd bron pob rheolwr (96% mewn gwasanaethau plant a 90% mewn gwasanaethau oedolion) fod reciwtio yn fwy heriol, neu lawer yn fwy heriol, nag ar unrhyw adeg yn ystod y tair blynedd diwethaf.

Mae Cymdeithas Geriatreg Prydain wedi galw am darged ledled y DU o gael un geriatregydd ymgynghorol i bob 500 o bobl 85 oed a hŷn. Ar hyn o bryd yng Nghymru, dim ond un geriatregydd ymgynghorol sydd i bob 723 o bobl 85 oed a hŷn.

'Mae gweithwyr iechyd a gofal ym mhob rhan o Ewrop yn profi gorweithio, â lefelau uchel o ddiffygio. Maent yn disgrifio teimlo eu bod heb eu gwerthfawrogi ac wedi dadrithio ac maent yn colli ymddiriedaeth yn y systemau y maent yn gweithio ynddynt. Mae gofal iechyd yn dod yn fwy cymhleth oherwydd patrymau clefydau sy'n newid, fel cynnydd amlafiachedd mewn poblogaethau sy'n heneiddio ... mae'r gweithlu iechyd hefyd yn heneiddio [a] gweithwyr hŷn yn ymuno â'r rheiny â theuluoedd ifanc wrth gwestiynu beth allai fod yn gydbwysedd afiach rhwng bywyd a gwaith. [Mae'r ffordd ymlaen] yn gosod gweithwyr iechyd a gofal wrth ei wraidd, gan gydnabod bod methu ag ymgysylltu â hwy wrth chwilio am atebion yn ddibwrpas ... yr her ... yw sut i ailadeiladu ymddiriedaeth, gan gleifion, gweithwyr iechyd, a gwleidyddion, mewn systemau iechyd a thrawsnewid gwasanaethau i'w gwneud yn rhai sy'n wirioneddol canolbwytio ar bobl. Ni fydd hyn yn bosibl heb weithlu iechyd a gofal sydd wedi ymgysylltu ac yn frwd frydig.'

– **Datrys yr argywng gweithlu iechyd**

10 cam cyflym ymlaen: Helpu staff i ffynnu, gofalu, dysgu a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi

Amgylchedd gweithle lle gall staff ffynnu

1. Gwella **lles staff** trwy ddarparu cyfleusterau ar gyfer gorffwys, mannau i wneud gwaith heb fod yn glinigol a diodydd a bwyd poeth hygyrch. Datblygu gwasanaeth iechyd galwedigaethol ag adnoddau a chynyddu ymdrechion i ddileu bwlio ac anghwrteisi.
2. Hwyluso gwell **cydbwysedd gwaith-bywyd** trwy helpu gweithwyr i gael mynediad at ofal plant a chynlluniau chwarae gwyliau ysgol hyblyg a fforddiadwy, a sicrhau y gall staff gymryd amser i ffwrdd ar gyfer digwyddiadau

pwysig bywyd, gan alluogi'r hawl i fywyd preifat wedi'i gynllunio.

3. Sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cael mynediad at gyfleoedd **arweinyddiaeth glinigol** ac yn cael eu cefnogi â diwylliant tîm cydlynol a chynhwysol i ddod yn arweinwyr tosturiol sy'n ysbrydoli pobl eraill.

Amgylchedd gweithle lle gall staff ofalu

4. Lleddfu pwysau ar staff, ac oedi i gleifion, trwy gefnogi **gofal cymdeithasol** i helpu i leihau derbyniadau i'r ysbyty a chyflymu rhyddhau.
5. Cefnogi datblygiad **timau aml-alwedigaethol**, cyflymu camau ar gyfer rheoleiddio a reciwtio'r galwedigaethau meddygol cyswllt.
6. Buddsoddi mewn modelau **cymunedol** gofal arbenigol i helpu staff i flaenoriaethu ymyrraeth gynnar, atal afiechyd ac osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty, yn enwedig i bobl hŷn neu'r rhai sy'n byw ag eiddilwch.

Amgylchedd gweithle lle gall staff ddysgu

7. Sicrhau bod cynllunio swyddi ar gyfer pob galwedigaeth, ac ar bob lefel, yn hwyluso hyfforddiant a gweithio hyblyg, yn sicrhau **amser gwarchodedig** ar gyfer gweithgarwch heb fod yn glinigol ac yn cydnabod gweithgareddau proffesiynol fel addysg a hyfforddiant, arweinyddiaeth glinigol, gwella ansawdd a llywodraethu. Ystyried cynnig cyllidebau neu grantiau astudio gwell i leddfu baich ariannol arholiadau proffesiynol.

Amgylchedd gweithle lle gall staff *deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi*

8. **Lleihau beichiau gweinyddol** ar staff trwy symleiddio prosesau hyfforddi gorfolol, gwella'r model cyflogwr arweiniol sengl, cyflwyno pasbortau staff a symleiddio arfarnu ac ail-ddilysu.
9. Defnyddio **cyfweliadau 'aros'** (**nid gadael yn unig**) i nodi staff sydd mewn perygl o adael, a dod o hyd i ddatrysiau a allai eu hannog i aros (fel mentora, gweithio hyblyg neu LTFT).
10. Gwella trefniadau **ymddeol a dychwelyd** trwy sicrhau polisiau cliriach a mwy cyson, a hwyluso dulliau hyblyg o weithredu, gan gynnwys mynediad at gynlluniau swyddi gweithio o bell a phortffolio.

Grŵp cynggori colegau brenhinol a chyrrff proffesiynol Cymru

Ym mis Gorffennaf 2022, sefydlodd colegau brenhinol, cyfadranau, cymdeithasau arbenigol a chyrrff proffesiynol yng Nghymru grŵp cyngori allanol amlddisgyblaethol ar gynllunio'r gweithlu, trawsnewid gwasanaethau a blaenoriaethau eraill a rennir.

Cafodd ei gynnill gan Goleg Brenhinol y Meddygon, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys mwy na 30 o sefydliadau aelodaeth sy'n cynrychioli degau o filoedd o feddygon, nyrsys, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, therapyddion,

fferyllwyr, deintyddion, parafeddygon a gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru.

Nod y grŵp yw cydweithio â llywodraeth Cymru, GIG Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i wella'r ffordd rydym yn addysgu, denu, cadw ac ailgynllunio'r gweithlu iechyd a gofal wrth werthfawrogi, ysgogi a chefnogi staff i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.

Yn y papur briffio hwn, mae ein sefydliadau wedi dod ynghyd i rannu ffyrdd o gefnogi'r staff iechyd a gofal sy'n gofalu amdanom pan fyddwn eu hangen fwyaf.

Mae'r papur hwn yn cael ei gymeradwyo gan:

- > Academi Colegau Meddygol Brenhinol Cymru
- > Coleg Brenhinol Llawfeddygon Caeredin
- > Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr
- > Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys
- > Coleg Brenhinol Meddygon a Llawfeddygon Glasgow
- > Coleg Brenhinol Nyrsio
- > Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
- > Coleg Brenhinol Podiatreg
- > Coleg Brenhinol y Meddygon
- > Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu
- > Coleg Brenhinol y Meddygon, Caeredin
- > Coleg Brenhinol y Patholegwyr
- > Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- > Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol
- > Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd
- > Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain
- > Coleg Brenhinol yr Anesthetydion
- > Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr
- > Coleg y Parafeddygon
- > Cyfadran Iechyd y Cyhoedd
- > Cyfadran Meddygaeth Gofal Dwys
- > Cymdeithas Ddeieteg Prydain
- > Cymdeithas Geriatreg Prydain
- > Cymdeithas Hylendid Galwedigaethol Prydain
- > Cymdeithas Seicolegol Prydain
- > Cymdeithas Siartaredig Ffisiotherapi
- > Cymdeithas y Radiograffwyr
- > Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Darllen pellach

A dozen things the NHS could do tomorrow. Academi'r Colegau Meddygol Brenhinol, 2021

Dewis gyrao cadarnhaol: cefnogi meddygon SAS yng Nghymru. Coleg Brenhinol y Meddygon, 2022

Bucharest Declaration on the health and care workforce. Sefydlriad Iechyd y Byd, 2023

Facing workforce shortages and backlogs in the aftermath of COVID-19: The 2022 census of the ophthalmology consultant, trainee and SAS workforce. Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr, 2022

Fit for the future: GP pressures 2023. Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu, 2023

Flexible working in geriatric medicine. Cymdeithas Henoed Prydain, 2021

Future of surgery. Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr, 2018

Gwneud pethau'n wahanol: Cynorthwyo meddygon yng Nghymru. Coleg Brenhinol y Meddygon, 2019

International retention toolkit. Cyflogwyr y GIG, 2023

Key recommendations for retention and workforce wellbeing in emergency care. Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys a Phrifysgol Caerfaddon, wedi'i ariannu gan UKRI, 2023

Later careers: Stemming the drain of expertise and skills from the profession. Royal College of Physicians, 2018.

Less than full-time training, is this the new norm? BMJ Open, 2022

Occupational therapy under pressure 2022–2023. Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, 2023

Parents in surgery. Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr, 2022

Protected learning time. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, 2023

RCP view on the NHS workforce: short- and medium-term solutions. Coleg Brenhinol y Meddygon, 2022

Respected, valued, retained. Coleg Brenhinol yr Anesthetiiddion, 2021

Retaining nurses in the profession: What matters? Coleg Brenhinol Nysrio, 2022

Strengthening the workforce to care for an ageing population. Cymdeithas Henoed Prydain, 2023

The right track: Participation and progression in psychology career paths. Ymddiriedolaeth Nuffield, wedi'i chomisiynu a'i chefnogi gan Gymdeithas Seicolegol Prydain, 2021

Valuing nursing in the UK. Coleg Brenhinol Nysrio, 2023

Wales emergency medicine workforce census 2023. Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, 2023

Workforce and wellbeing survey 2022 Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, 2022

Workforce census 2022. Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, 2022

Working differently in the shadow of COVID-19: the 2021 UK census of consultant, higher specialty trainee and SAS physicians. Coleg Brenhinol Meddygon DU, 2022

Workforce: Improving capacity and culture. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, 2021

Addysgu, gwellia, dylanwadu

Drwy ein gwaith gyda chleifion a meddygon, mae Coleg Brenhinol y Meddygon yn gweithio i gyflwyno newid gwirioneddol drwy'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni'n cynrychioli 40,000 o feddygon a chlinigwyr ledled y byd – yn addysgu, yn gwella ac yn dylanwadu er mwyn sicrhau gwell iechyd a gofal. Mae dros 1,600 o'n haelodau yng Nghymru yn gweithio mewn ysbytai ac yn y gymuned mewn 30 o feisydd clinigol arbenigol, gan roi diagnosis a thrin miliynau o gleifion sydd ag amrywiaeth rhyfeddol o gyflyrau meddygol. Rydyn ni'n ymgyrchu dros wella gofal iechyd, addysg feddygol ac iechyd y cyhoedd.

wales@rcp.ac.uk
www.rcp.ac.uk/wales
@RCPWales

The grid contains logos for the following organizations:

- The Royal College of Pathologists
- RC PSYCH (Royal College of Psychiatrists)
- COLLEGE OF paramedics
- AMRCW (Academy of Medical Royal Colleges Wales)
- ROYAL PHARMACEUTICAL SOCIETY Wales Cymru
- THE ROYAL COLLEGE OF SURGEONS OF EDINBURGH
- COLEG BRENHINOL LLAWFEDDYGON CAEREDIN
- The Faculty of Intensive Care Medicine
- RCoA (Royal College of Anaesthetists)
- Coleg Nysio Brenhinol Cymru Royal College of Nursing Wales
- RCS ENGLAND IN WALES
- the british psychological society
- ROYAL COLLEGE of PHYSICIANS of EDINBURGH
- FACULTY OF PUBLIC HEALTH
- BOHS (British Occupational Hygiene Society)
- RC OT (Royal College of Occupational Therapists)
- RC GP (Royal College of General Practitioners)
- BCS (British Geriatrics Society)
- ROYAL COLLEGE OF PHYSICIANS AND SURGEONS OF GLASGOW
- BDA (The Association of UK Dietitians)
- CHARTERED SOCIETY OF PHYSIOTHERAPY CYMDEITHAS SIARTREDIG FFISIOTHERAPI
- RCPCH (Royal College of Paediatrics and Child Health Cymru)
- BASW Cymru (The professional association for social work and social workers)
- RCSLT WALES CYMRU
- THE ROYAL COLLEGE of OPHTHALMOLOGISTS
- RCEM Wales
- ROYAL COLLEGE of PODIATRY
- SoR 100 YEARS (THE SOCIETY OF RADIOPHOTOGRAPHERS)



Royal College
of Physicians

Coleg Brenhinol
y Meddygon (Cymru)

© Coleg Brenhinol y Meddygon Gorffennaf 2023